© Office for Nuclear Regulation
**HEB REOLAETH PAN GAIFF EI ARGRAFFU**
Os byddwch eisiau ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright i gael y manylion.

# Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)

# Adroddiad Safle ar gyfer

# Trawsfynydd

### Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2021 hyd 31 Mawrth 2022

**Rhagair**

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth am arolygiadau a gweithgareddau rheoliadol sy'n ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliad Safle Trawsfynydd ac maen nhw ar gael hefyd ar wefan ONR (http://www.onr.org.uk/llc/).

Mae arolygwyr safle o ONR yn mynd i gyfarfodydd SSG Trawsfynydd fel arfer lle cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddent yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sydd eisiau holi am faterion sy'n derbyn sylw yn yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

# Tabl y Cynnwys

1. Arolygwyr ........ 3
2. Materion Arferol ........ 4
3. Materion nad ydynt yn Rhai Arferol ........ 6
4. Gweithgarwch Rheoleiddio ........ 7
5. Newyddion gan ONR ........ 8
6. Cysylltiadau ........ 8

# 1. Arolygwyr

## 1.1. Dyddiad yr Arolygiad

Gwnaeth Arolygwyr ONR arolygiadau ar y dyddiadau a ganlyn yn ystod y cyfnod adrodd 1 Hydref 2021 hyd 31 Mawrth 2022:

- 17 Tachwedd 2021
- 14 hyd 16 Rhagfyr 2021
- 16 Chwefror 2022
- 22 a 23 Chwefror 2022

# 2. Materion Arferol

## 2.1. Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau yn rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â:

- yr amodau y mae ONR yn eu hatodi at drwydded safle niwlclear a ganiateir o dan Ddeddf Safleoedd Niwcelar 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraiff Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 2017 (IRR17) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).
- Rheoliadau Diogelwch Diwydiannau Niwclear (NISR) 2003 (fel y'u diwygiwyd); a
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Mae'r arolygiadau'n cynnwys monitro gweithredoedd dalwyr trwydded ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i achosion diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol bod daliwr y drwydded yn gwneud ac yn gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Nod yr arolygiadau yw barnu a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol ac a ydynt wedi eu gweithredu.

Yn y cyfnod hwn, roedd arolygiadau arferol o Drawsfynydd yn ymdrin â'r canlynol:

- addasiadau i gyfarpar offer a chasys diogelwch;
- y rheolaeth ar weithrediadau, yn cynnwys rheoli a goruchwylio;
- archwilio, cynnal, arolygu a phrofi;
- rheoli gwastraff ymbelydrol;
- datgomisiynu;
- adolygiad diogelwch cyfnodol; a
- diogelwch.

Gwnaed ein harolwg datgomisiynu a rheoli gwastraff ymbelydrol a weithredwyd ym mis Rhagfyr 2021 ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru (gyda chefnogaeth Asiantaeth yr Amgylchedd).

Gall aelodau'r cyhoedd a hoffai gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau arolygu ONR yn ystod y cyfnod adrodd, weld Adroddiadau Ymyrraeth safle ar www.onr.org.uk/intervention-records ar ein gwefan www.onr.org.uk. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein gweithgareddau arolygu anfonwch e-bost i contact@onr.gov.uk.

## 2.2. Gwaith Arall

Trwy gydol y cyfnod adrodd hwn, mae arolygydd diogelwch safle enwebedig ONR wedi cynnal cyfarfodydd bob pythefnos gyda chynrychiolydd o dîm arweinyddiaeth Trawsfynydd i gynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch niwclear, diogeledd, mesurau diogelu, trafnidiaeth ac iechyd a diogelwch confensiynol, yn cynnwys: cydnerthedd y gweithlu, cydnerthedd y trefniadau argyfwng, cydnerthedd y gadwyn gyflenwi, diogelwch tân, digwyddiadau ar y safle a gweithgareddau sy'n digwydd ar y safle. Ni thynnwyd sylw ONR at unrhyw faterion arwyddocaol.

Rydym yn adolygu ein hymgysylltiadau â Thrawsfynydd ac yn ymwybodol bod angen cydbwyso cwblhau arolygiadau arfaethedig â rheolau COVID-19 Llywodraeth Cymru a'r ardal leol. Mae hyn yn cynnwys rhyngweithio rhywfaint drwy fideo-gynadledda, e-bost a ffôn (fel y bo'n briodol) er mwyn sicrhau'r presenoldeb corfforol gorau ar y safle.

Mae ONR yn parhau i fynychu Grŵp Tactegol Cyflwr Terfynol Trawsfynydd (TESTG) Magnox Limited’s (ML) a chyfarfodydd technegol eraill i drafod gweithgareddau datgomisiynu'r safle, yn cynnwys paratoadau ar gyfer dymchwel arfaethedig a gwaredu cyfadeiladau'r pyllau (PCDD), gostwng uchder (HR) Safestores (adeiladau'r Adweithydd) a rhaglen dreigl o ddatgomisiynu, a thaith i'r cyflwr terfynol.

Ym mis Mawrth, cwblhaodd ONR ei asesiad o adolygiad diogelwch cyfnodol (PSR) Trawsfynydd. Cadarnhaodd ein hasesiad bod PSR Trawsfynydd yn cefnogi parhad gweithrediadau. Rydym wedi ysgrifennu at Drawsfynydd i gadarnhau bod ONR yn cefnogi parhad y gwaith datgomisiynu ar y safle.

Cyfarfu ein harolygydd diogelwch safle enwebedig â chynrychiolwyr diogelwch Trawsfynydd yn ystod y cyfnod hwn (yn cynnwys cyd-gerdded adrannau o'r safle), i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli gweithwyr a derbyn gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

# 3. Materion nad ydynt yn Rhai Arferol

Mae'n ofynnol i ddalwyr trwydded gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau nad ydynt yn rhai arferol. Mae ein harolygwyr ONR yn barnu a yw ymateb y dalwyr trwydded yn ddigonol, gan gynnwys y camau a gymerwyd i weithredu unrhyw wellianau angenrheidol.

Ym mis Hydref 2021, adroddodd Trawsfynydd am achos posibl ar y safle o drosglwyddo Covid-19 ymysg nifer o aelodau ei weithlu. Ar y pryd roedd cyfradd yr haint yn uwch drwy'r gymuned leol i gyd, ond canfuwyd clwstwr lleol ar y safle. Adroddwyd y mater o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Ni chafwyd effaith ar y diogelwch gweithrediadol yn Nhrawsfynydd ac roedd ONR yn fodlon bod y safle'n parhau i weithredu ei drefniadau cwmni a luniwyd i ostwng y risg o drosglwyddo Covid ar y safle.

# 4. Gweithgarwch Rheoleiddio

Gallai ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol. O dan amodau trwydded safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddio, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n gofyn am gymryd rhyw fath o gamau gweithredu; fel arfer gelwir y rhain ar y cyd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs) ond gallant fod ar ffurfiau eraill. Yn ogystal, gall arolygwyr gymryd amrywiaeth o gamau gorfodi, gan gynnwys cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi.

Ni chyflwynwyd unrhyw LIs, Hysbysiadau Gorfodi na llythyrau Gorfodi yn ystod y cyfnod hwn.

Mae adroddiadau sy'n manylu ar benderfyniadau rheoleiddio i'w gweld ar wefan ONR ar http://www.onr.org.uk/pars/.

# 5. Newyddion gan ONR

I gael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, darllenwch a thanysgrifiwch i'n cylchlythyr e-bost rheolaidd 'Newyddion ONR' ar www.onr.org.uk/onrnews

# 6. Cysylltiadau

Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: Contact@onr.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i roi gwybod am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn ewch ihttp://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© Office for Nuclear Regulation, 2022
Os hoffech ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm i gael manylion.
Cyhoeddwyd 5/22

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan ONR yw'r fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd o hyd ac mae copïo neu argraffu'r ddogfen hon yn golygu nad oes rheolaeth arni.